Datganiad i'r wasg
2 Gorffennaf 2009

Yr Urdd yng Ngŵyl Werin Smithsonian 2009

Cymru yw canolbwynt Gŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian eleni ac mae Urdd Gobaith Cymru yn falch iawn o gael bod yn rhan o'r bwrlwm yn Washington D.C i roi blas o waith y mudiad i'r dros filiwn o ymwelwyr â'r ŵyl.

Amgueddfa Genedlaethol yr Unol Daliaethau yw'r Smithsonian a bob blwyddyn ers 1967 cynhelir gŵyl werin yn y National Mall dros gyfnod o ddeng niwrnod rhwng diwedd mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf.

Mae'r Ŵyl yn dathlu traddodiadau diwylliannol cymunedau ar hyd a lled yr Unol Daleithiau a thrwy'r byd a bob blwyddyn dewisir gwlad wadd. Eleni mae'r ŵyl yn ffenest siop i ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig ac mae dros 160 o Gymry – yn artistiaid, cerddorion, beirdd, cogyddion a chrefftwyr - draw yn Washington yn rhoi cyfle i bobl ddysgu mwy am ein gwlad.

Yn dilyn gwahoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad a Gŵyl Smithsonian, mae dau aelod o staff yr Urdd ac un gwirfoddolwr draw yno ar hyn o bryd yn cenhadu am waith y mudiad, ac yn benodol felly am yr hyn y mae Adran Chwaraeon yr Urdd yn ei gynnig i blant a phobl ifanc Cymru.

Meddai Bethan Rowlands, Swyddog Hyfforddi Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru: “Mae gennym stondin ar y Mall i gynnal gweithgareddau chwaraeon a rhoi blas i blant o rygbi fel un o brif gemau cenedlaethol Cymru. Mae Owain Tudur, ein Hyfforddwr Rygbi yn cynnal sesiwn bob awr ac rydym hefyd yn cynnig sesiynau pêl-rwyd gan nad ydynt yn chwarae pêl rwyd allan yma. Mae’r sesiynau’n profi’n hynod o boblogaidd gyda phlant ac oedolion - rhai ohonynt wedi clywed am y gêm ac eraill heb ac am wybod mwy. Y cwestiwn ry’n ni’n ei gael amlaf yw, ‘What is rugby? Is it like American Football without the padding?”

Mae croeso’r Americanwyr wedi bod mor dwymgalon â’r tymheredd o dros 32 gradd bob dydd, fel yr esbonia Mali James, Rheolwr Nawdd yr Urdd.

“Mae’n hynod o boeth yma ac mae pawb mor gyfeillgar ac yn gwerthfawrogi ein bod yn rhoi ein hamser i ddod i’r Unol Daleithiau i sôn am Gymru. Roedd yn brofiad reit emosiynol i gael ymateb mor bositif yn y seremoni agoriadol ac mae gan yr Americanwyr sy’n ymweld â’r stondin ddiddordeb mawr yng ngwaith yr Urdd - beth yw’r mudiad, pwy sy’n aelodau, beth yw’r Eisteddfod a dysgu mwy am y gwersylloedd - ac yn canmol yr hyn mae’r Urdd yn ei wneud yn rhoi cyfleon i blant a phobl ifanc fwynhau drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain.”

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa’r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org. Neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau’r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.